# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 29 Ionawr 2014 i'w hateb ar 5 Chwefror 2014

R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)

## Gofyn i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd

1. **Aled Roberts (Gogledd Cymru)**: A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y ceisiadau a gafwyd gan awdurdodau lleol i gyllido gwaith atgyweirio brys ar amddiffynfeydd arfordirol? OAQ(4)0116(NRF)**W**

2. **Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)**: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am hybu bwyd Cymru? OAQ(4)0107(NRF)**W**

3. **Byron Davies (Gorllewin De Cymru)**: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am bolisi tir comin Llywodraeth Cymru? OAQ(4)0113(NRF)

4. **Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gamau Llywodraeth Cymru i wella ffermio yng ngorllewin Cymru? OAQ(4)0105(NRF)

5. **Elin Jones (Ceredigion)**: Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i hyrwyddo dyfodol ffermio ucheldir? OAQ(4)0101(NRF)**W**

6. **Mohammad Asghar (Dwyrain De Cymru)**: A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ei gynlluniau i hyrwyddo bwyd a diod o Gymru? OAQ(4)0102(NRF)

7. **Eluned Parrott (Canol De Cymru)**: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am bwysigrwydd rheoli adnoddau naturiol yn gyfrifol yng Nghymru? OAQ(4)0110(NRF)

**8. Suzy Davies (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y rôl y mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ei chwarae o ran diogelu treftadaeth naturiol Cymru? OAQ(4)0115(NRF)

9. **Mike Hedges (Dwyrain Abertawe):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y mesurau atal llifogydd sy'n cael eu cymryd yn erbyn afon Tawe yn Nwyrain Abertawe? OAQ(4)0103(NRF)

**10. Gwyn Price (Islwyn):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut y mae Llywodraeth Cymru yn gweithio i fynd i'r afael â thlodi tanwydd? OAQ(4)0108(NRF)

**11. Jenny Rathbone (Canol Caerdydd):** Pa effaith y bydd targedau newydd yr UE ar allyriadau yn eu cael ar rôl Cymru o ran mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd? OAQ(4)0117(NRF)

**12. Christine Chapman (Cwm Cynon):** A wnaiff Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ei thrafodaethau gyda'r Swyddfa Gartref ynglŷn â'r defnydd o anifeiliaid byw mewn arbrofion? OAQ(4)0112(NRF)

**13. Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cynulliad am ba gynnydd sy'n cael ei wneud o ran gwerthuso a gweithredu'r Gronfa Natur? OAQ(4)0109(NRF)

**14. Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi eu cynnal ynglŷn â chefnogi cynlluniau trydan dŵr yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru? OAQ(4)0111(NRF)**W**

**15. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddyfodol ffermio ar rostiroedd Brycheiniog a Sir Faesyfed? OAQ(4)0118(NRF)

## Gofyn i'r Gweinidog Tai ac Adfywio

**1. David Rees (Aberafan):** Pa gynnydd sy'n cael ei wneud gan awdurdodau lleol ledled Cymru o ran llunio eu Cynlluniau Datblygu Lleol? OAQ(4)0349(HR)

**2. Leighton Andrews (Rhondda):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am bolisi tai fforddiadwy Llywodraeth Cymru? OAQ(4)0350(HR)

**3. Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro):** Pa ddulliau monitro sydd ar waith i sicrhau bod cyrff tai yn bodloni canllawiau a gyhoeddir gan eich adran? OAQ(4)0352(HR)

**4. Paul Davies (Preseli Sir Benfro):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ymdrechion i adfywio yng ngorllewin Cymru? OAQ(4)0342(HR)

**5. Julie James (Gorllewin Abertawe):** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i reoli lledaenu arwyddion gosod mewn ardaloedd o dai amlfeddiannaeth dwysedd uchel? OAQ(4)0344(HR)

**6. Keith Davies (Llanelli):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei flaenoriaethau ar gyfer prosiectau adfywio? OAQ(4)0357(HR)**W**

**7. Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i helpu trigolion Canol De Cymru i brynu tŷ am y tro cyntaf? OAQ(4)0346(HR)

**8. Joyce Watson (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am waith hwyluswyr tai gwledig yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru? OAQ(4)0351(HR)

9. **Bethan Jenkins (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am orfodi rheoliadau adeiladu? OAQ(4)0343(HR)

**10. William Powell (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddatblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer cynllunwyr trefi yng Nghymru? OAQ(4)0354(HR)

**11. Alun Ffred Jones (Arfon):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am effaith y Bil Cynllunio arfaethedig ar y Gymraeg? OAQ(4)0345(HR)**W**

**12. Russell George (Sir Drefaldwyn):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am wella perfformiad ynni adeiladau yng Nghymru? OAQ(4)0355(HR)

**13. Gwyn Price (Islwyn):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i wella ansawdd stoc tai Cymru? OAQ(4)0347(HR)

**14. Suzy Davies (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am weithredu'r Grant Cyfleusterau i'r Anabl? OAQ(4)0348(HR)

**15. Mohammad Asghar (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ei gynlluniau i ddarparu cartrefi fforddiadwy newydd yng Nghymru? OAQ(4)0340(HR)

## Gofyn i'r Cwnsler Cyffredinol

**1. Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Cwnsler Cyffredinol ddatganiad am sut y mae Bil Drafft Cymru yn hyrwyddo trafodaeth gyhoeddus ynghylch cyflawni awdurdodaeth ar wahân i Gymru? OAQ(4)0056(CG)**W**

**2. Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa drafodaethau y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi eu cael gyda Chomisiwn y Gyfraith ynglŷn â Bil Drafft Cymru? OAQ(4)0057(CG)**W**